

Y CYNGOR

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 13:00 ar 04 CHWEFROR 2022, dros Zoom.

Yn bresennol: Dr Emyr Roberts, Cadeirydd y Cyngor (Cadeirydd); Ms Meri Huws, Dirprwy Gadeirydd y Cyngor; Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad Myfyrwyr); Ms Kate Eden; Ms Mared Edwards, Llywydd UMCA (tan gofnod 40); Ms Kylie Evans; Yr Athro Simon Green; Ms Sharron Lusher; Dr Louise Marshall (o gofnod 41); Ms Rhuanedd Richards; Mr Mark Tweed; Yr Athro Syr Robin Williams; a'r Athro Reyer Zwigelaar.

Yn gweinyddu: Mr Stephen Forster, Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol; Mr Steve Thomas; Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus; Ms Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor, a Ms Kath Williams, Ysgrifennydd Dros Dro y Brifysgol.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan Mr Owen Evans; Ms Sabina O'Donoghue, Llywydd UMAber; Ms Fiona Sharp; a Dr William Williams.

32. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Croeso

Kylie Evans, Rheolwr Ysgoloriaethau, yn bresennol yn aelod staff anacademaidd yn ystod secondiad Kath Williams i swydd Ysgrifennydd y Brifysgol.

2. Cydymdeimlad

Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

1. Dr David Falla, cyn warden Neuadd Padarn a darlithydd yn yr Adran Ffiseg;
2. Yr Athro Emeritws Chris Harding, Adran y Gyfraith a Throseddeg a chyn-bennaeth adran.
3. Joseph (Joe) Francis, myfyriwr 3^{edd} flwyddyn yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu;

3. Llongyfarchiadau

Llongyfarchwyd Dr Louise Marshall ar ei phenodiad yn ddiweddar, ynghyd â Dr Jenny Mathers a Dr Gareth Hall, i grwpiau ymgynghorol yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd Addysg Uwch (ASA).

4. Aelodaeth y Cyngor

Roedd Ms Fiona Sharp wedi rhoi gwybod i'r Cadeirydd am ei bwriad i beidio â cheisio ail dymor ar y Cyngor pan ddaw ei thymor i ben ddiwedd mis Ebrill, oherwydd ymrwymadau eraill. Roedd camau'n cael eu cymryd yn awr i lenwi'r lle gwag i Aelod

Annibynnol ar y Cyngor, yn ogystal â lleoedd gwag eraill ar Bwyllgorau, a byddai argymhelliad yn cael ei gyflwyno ymhen amser.

5. Sesiwn wybodaeth anffurfiol

Cyn y cyfarfod ffurfiol, cynhaliwyd sesiwn wybodaeth anffurfiol i aelodau'r Cyngor ynglŷn â Marchnata a Denu Myfyrwyr. Arweiniwyd y sesiwn gan yr Athro Tim Woods, yr Athro Anwen Jones a Mr Robin Halley. Byddai copi o'r cyflwyniad yn cael ei roi ar SharePoint [**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol].

6. Dull cynnal y Cyfarfod

Er mwyn cynnal cyfarfod effeithiol ar-lein, gofynnwyd i aelodau roi rhybudd ymlaen llaw pe byddent yn dymuno trafod eitem a nodwyd â seren ar yr agenda. Ni wnaed cais, a byddai'r eitemau dan sylw felly'n cael eu cymeradwyo neu eu nodi yn unol â'r argymhelliad ar y flaendalen.

33. GWRTHDARO BUDDIANNAU

NODWYD

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w hystyried yn ystod y cyfarfod. Fodd bynnag, o dan eitem 37.7, cafwyd adroddiad gan yr Is-Ganghellor ar faterion yn ymwneud â phensiwn a nododd fuddiant gan aelodau'r staff a oedd yn bresennol yn y cyfarfod.

34. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2021 (COU2122-064).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

35. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Cyngor, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (COU2122-065).

NODWYD

1. Y diweddariadau a roddwyd yn y cofnodydd penderfyniadau. Cytunwyd na ddylid cynnwys camau caeedig hanesyddol yn y gwaith papur i gyfarfodydd yn y dyfodol. (**GWEITHREDU**: Ysgrifennydd y Brifysgol).

36. GOHEBIAETH

Doedd dim gohebiaeth i'w gofnodi.

37. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR (Munud wedi'i olygu)

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (COU2122-066)

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a chofrestriadau myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.
2. Er gwaethaf niferoedd cymharol uchel o achosion Covid-19 ymhlith y corff myfyrwyr, dywedwyd wrth yr aelodau bod newid amlwg yn natur yr ymateb i'r pandemig, gan gynnwys y newid i batrwm cyfarfodydd y Tîm Rheoli Digwyddiadau yn lleol, o'u cynnal yn wythnosol i'w cynnal bob pythefnos, a dywedwyd bod hyn yn unol â datblygiadau yn genedlaethol. Roedd pob ymdrech yn cael ei wneud i gynnal yr addysgu wyneb yn wyneb.
3. Yn ogystal â'r ffigurau recriwtio a adroddwyd yn y sesiwn wybodaeth cyn y cyfarfod ffurfiol, roedd ymgeiswyr ychwanegol am raglenni'r Ysgol Filfeddygaeth a Nyrsio, gan gynnwys, ar hyn o bryd, 350 o geisiadau am y 59 lle sydd ar gael ar y rhaglen Nyrsio. Fodd bynnag, mynegwyd pryderon am yr heriau sy'n parhau wrth recriwtio i'r ddarpariaeth TAR, yn Aberystwyth ac yng Nghymru'n gyffredinol, a'r angen am sylw strategol ar lefel genedlaethol i geisio datrys hyn. O ystyried hefyd ei bod yn annhebygol y byddai niferoedd myfyrwyr Ewropeaidd yn gwella, byddai dangosyddion perfformiad allweddol yn y dyfodol yn mynegi'r ceisiadau hynny o dan ffigurau ymgeiswyr rhyngwladol.
4. Disgwylir canlyniadau FfRhY 2021 ar yr un pryd â chyfarfod nesaf y Cyngor. Y disgwyl yw y bydd effaith negyddol ar y canlyniadau i PA, o ystyried yr heriau sefydliadol a wynebwyd yn ystod y cyfnod perthnasol, yn amlygu'r angen i'r Brifysgol fuddsoddi mewn ymchwil ac arloesi.
5. Tynnwyd sylw'r aelodau at gais y Brifysgol i UNESCO am statws Dinas Llenyddiaeth, yn seiliedig ar effaith y Brifysgol, Llyfrgell Genedlaethol Cymru a Chyngor Llyfrau Cymru.
6. Ers rhai misoedd, bu undeb yr UCU yn cynnal pleidlais ymhlith ei haelodau ynglŷn â gweithredu diwydiannol ar ddau fater ar wahân, sef cyflogau a phensiynau. Cynhaliwyd y bleidlais gyntaf ym mis Hydref/Tachwedd ac ail bleidlais ar yr un materion ym mis Rhagfyr/Ionawr mewn sefydliadau, megis PA, lle pleidleisiodd canran rhwng 40% a 50%. Derbyniodd PA y canlyniadau o'r bleidlais ddiweddaraf ym mis Ionawr gan nodi nad oedd y nifer gofynnol wedi pleidleisio ac felly na fyddai aelodau PA yn streicio nac yn gweithredu'n ddiwydiannol heb streicio.
7. Rhoddwyd diweddariad llafar am y newidiadau arfaethedig i'r cynllun Pensiwn USS. Dywedwyd wrth y Cyngor am y cyfnod ymgynghori o 2 wythnos gan Universities UK ynglŷn a chynnig i gynyddu cyfraniad pensiwn y cyflogwr 0.2% tan 2025, a fyddai'n cynyddu cyfraniad y Brifysgol i 21.4%. Pe na chefnogid y cynnig, byddai cyfraniad y Brifysgol yn codi dros 23% yn 2022 ac yn cynyddu ymhellach i dros 24% y flwyddyn ganlynol. Mae'r rhesymau am y cynnydd arfaethedig tan 2025 yn ymwneud â diwygiadau pensiwn arfaethedig gan gynnwys cap o 2.5% ar godiadau chwyddiant ar hawliau a gronwyd o fis Ebrill 2022. Awgrymwyd peidio â sefydlu'r cap tan 2025 ar

fuddiannau newydd a enillir. Argymhellodd yr Is-Ganghellor y dylid cefnogi cynnig UUK ar y 0.2% ychwanegol wrth aros i werthusiad pensiwn terfynol 2020 gau.

8.



PENDERFYNWYD

9. Cefnogi'r cynnydd o 0.2% ar gyfraniadau pensiwn cyflogwyr tan 2025 ac ymateb yn unol â hynny i ymgynghoriad Universities UK. (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor).

10.



38. DIWEDDARIAD IECHYD A DIOGELWCH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Reolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd (COU2122-067).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r manylion diweddaraf am weithgaredd iechyd a diogelwch.
2. Tynnwyd sylw at drefniadau rheoli llinell newydd. Dywedwyd wrth yr aelodau hefyd y byddai Rheolwr Iechyd, Diogelwch a'r Amgylchedd yn cynghori ar y gofynion Gwylidwriaeth Iechyd parhaus sy'n gysylltiedig â'r ddarpariaeth newydd gofal iechyd a'r Ysgol Filfeddygaeth.

39. ADRODDIAD GAN UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERYSTWYTH

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Lywydd UMAber (COU2122-068).

NODWYD

1. Rhoddai'r adroddiad fanylion diweddaraf y datblygiadau yn UMAber ers cyfarfod diwethaf Cyngor y Brifysgol.
2. Roedd UMAber yn parhau i gynnig digwyddiadau, er enghraifft yr Adfywio, yn ystod yr ail semester, ac yn dal i ganolbwyntio ar faterion lles myfyrwyr, gan gynnwys cefnogi dros

250 o fyfyrwyr a arhosodd yn Aberystwyth dros wyliau'r Nadolig. Roedd asesiadau risg amserol yn cael eu cynnal ar y rhaglen ddigwyddiadau yn ogystal ag ymateb wedi'i reoli i niferoedd Covid-19.

3. Tynnwyd sylw at Arolwg Myfyrwyr Undeb Cenedlaethol y Myfyrwyr (NUS) am 2020 a chanlyniadau da UMAber mewn amryw feysydd. Fodd bynnag, byddai'r aelodau'n croesawu cael ystyriaeth bellach i ffigurau lles myfyrwyr a thrafodaeth ar faterion yn gysylltiedig â chadw myfyrwyr. [GWEITHREDU - Llywydd UMAber]

40. MATERION STRATEGOL

1. Dangosyddion Perfformiad Allweddol

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Bennaeth Cynllunio (COU2122-069).

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad yn disgrifio'r cynnydd a wnaed yng nghyswllt y Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar ddiwedd Chwarter 2.
2. Tynnwyd sylw'r aelodau at y sylwebaeth fanwl ynglŷn â rhai o'r mesurau. Nodwyd mai 100% ddylai'r nod fod ar gyfer cwblhau'r Cynllun Cyfraniad Effeithiol (CCE) a bod tystiolaeth o arolwg y staff yn awgrymu bod cyfran uwch o'r staff nag a ddangoswyd yn y dangosyddion ffurfiol yn cael cyfarfodydd wyneb yn wyneb â'u Rheolwr Llinell yn rheolaidd. Nodwyd hefyd bod y drefn ar gyfer cefnogi sgysiau'r CCE yn cael ei adolygu gan Bennaeth Datblygu Sefydliadol a Dysgu.
3. Gofynnwyd am eglurhad ynghlych y Dangosyddion yn achos cyflogadwyedd a chydabuwyd bod y cynnydd yn llai na boddhaol. Nodwyd nifer o resymau lliniarol, yn cynnwys modiwlau hyfforddiant newydd i fyfyrwyr, megis LinkedIn Learning; datblygiad pecynnau wedi'u teilwra i gynlluniau gwahanol; a strategaethau i wreiddio diwylliant gwahanol mewn adrannau academiaidd i geisio ennyn eu hymrwymiad i ymgorffori cyfleoedd yn y cwricwlwm ar gyfer gwneud myfyrwyr yn fwy cyflogadwy. Nodwyd hefyd y byddai'r Dangosydd hwn yn gwella wrth i garfannau myfyrwyr yr Ysgol Filfeddygaeth a Nyrsio raddio, ac y byddai datblygu'r ddarpariaeth gofal iechyd ymhellach er mwyn cynnwys llwybrau Uwchraddedig hefyd yn cael dylanwad cadarnhaol ar ganlyniadau cyflogaeth.
4. Roedd datblygiadau pellach mewn gofal iechyd yn debygol o olygu y bydd angen mwy o le ar Gampws Penglais, gan bwysleisio'r angen i gwblhau'r Strategaeth Ystadau, Ymddiheurodd yr Is-Ganghellor ar ran y Weithrediaeth am yr oedi wrth ddod â'r Strategaeth honno gerbron, gan nodi bod angen rhagor o waith i sicrhau ei fod yn adlewyrchiad addas o amcanion strategol y Brifysgol, gan gynnwys twf y sefydliad.

41. MATERION ARIANNOL

1. Cyfrifon Rheoli

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid (COU2122-070).

NODWYD

Roedd yr adroddiad yn disgrifio perfformiad ariannol y Brifysgol hyd at ddiwedd Mis 5 (31 Ionawr 2022).

1. Adroddiad interim oedd hwn ar gyfer M5 o gofio bod yr adroddiad chwarterol llawn (Q2) yn cael ei gyhoeddi nes ymlaen yn y mis mewn pryd i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad.
2. Doedd y sefyllfa heb newid fawr ers M4 ac roedd y sefydliad yn dal yn debygol o gael y gweddill o £0.1m y cyllidwyd ar ei gyfer. Tynnwyd sylw at yr eithriadau yn y gyllideb ac yn benodol y gostyngiadau yn incwm myfyrwyr o'i gymharu â'r gyllideb o £1.7m. Cafodd arbedion eu nodi eleni yn ystod y fwyddyn i wneud iawn am y diffyg y disgwylid i ddeiliaid cyllideb weithio o'u mewn. Nodwyd peth lliniaru ychwanegol yn dilyn derbyn llythyr cylch gorchwyl diwygiedig y Cyngor Cylldo a oedd yn cynnwys hyd at £2m i brosiectau cyfalaf a chyfran o £10m o gynnydd yn ystod y flwyddyn mewn cyllid Sicrhau Ansawdd. Disgwylir rhagor o fanylion am y cyllid ychwanegol hyn. Tynnwyd sylw'r aelodau at y gwelliant yn sefyllfa'r llyfr arian o'i gymharu â'r gyllideb.
3. Gofynnwyd am eglurhad ynglŷn â strategaeth y Brifysgol o bwrcasu ymlaen llaw i leddfu'r cynnydd ym mhrisiau ynni. Nodwyd bod 80% o'r costau wedi'u blaenbwrcasu a'r 20% ychwanegol wedi ei gynnwys yn y gyllideb.

PENDERFYNWYD

4. Nodi'r sefyllfa fel yr oedd ym M5.

42. YR HEN GOLEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol (COU2122-071)

NODWYD

1. Roedd yr adroddiad, a oedd yn dal yn gyfrinachol, yn rhoi manylion diweddaraf y prosiect i'w hystyried gan y Cyngor ac yn disgrifio un agwedd ar gynnydd Cam 2, a gefnogir gan y Gronfa Ffyniant Bro, i brynu Adeilad Cambria gerllaw'r Hen Goleg.
2. Rhoddwyd y manylion diweddaraf i'r aelodau ynglŷn â Cham 1 prosiect yr Hen Goleg: cafodd contractwyr eu penodi ac roedd trafodaethau ar beirianeg gwerth yn mynd rhagddynt. Dywedwyd wrth yr aelodau nad oedd cynlluniau Cam 1, o ystyried y pwysau ariannol ehangach, yn debygol o gael eu cyflawni llwyr erbyn diwedd y cyfnod cyntaf hwnnw o'r gwaith. Fodd bynnag, sicrhawyd y Cyngor y byddai unrhyw benderfyniadau peirianeg gwerth a wneir ar y sail bod yr achos busnes, fel y'i cyflwynir, yn cael ei ddiogelu ac y bydd unrhyw amodau'n gysylltiedig â chyllid allanol penodol yn cael eu cynnal. Dywedwyd bod yr ymgyrch codi arian yn parhau gyda golwg ar leihau cyfraniad y Brifysgol o dan yr uchafswm o £13.5 fel y cytunwyd gan y Cyngor.
3. Tynnwyd sylw'r aelodau at y Cofnod o'r Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (RPC2122-022 19.1), yn crynhoi'r ystyriaeth a roddwyd yn y cyfarfod hwnnw ynglŷn â Cham 2, a'r amodau a'r sicrwydd parhaus a geisir yn rhan o'r argymhelliad a wnaed. Yn y Pwyllgor A&Ph daethpwyd i'r casgliad hefyd bod angen i benderfyniadau ynglŷn â datblygiadau'r

Hen Goleg a ffynonellau ac amodau cyllid gael eu cyfathrebu'n addas, yn enwedig i gorff y myfyrwyr, a'i bod yn hanfodol cadw cyswllt parhaus â chynrychiolwyr y myfyrwyr.

4. Gofynnwyd am sicrwydd ynghylch cymhlethdod y cam ychwanegol ac ynglŷn ag ymgorffori prosiect Adeilad y Cambria ochr yn ochr â'r prosiect presennol. Cydnabuwyd bod yr elfen ychwanegol yn creu lefel uwch o gymhlethdod ond bod cydweithrediadau wedi eu hen sefydlu rhwng y timau a'r rhanddeiliaid, mewnol ac allanol i'r Brifysgol, a oedd yn rhoi sail gadarn ar gyfer bwrw mlaen â Cham 2. Gofynnodd y Cyngor am sicrwydd hefyd na fyddai unrhyw benderfyniadau peirianeg gwerth yn andwyol i'r weledigaeth wreiddiol ar gyfer yr adeilad nac yn ei chyfaddawdu. Awgrymwyd er na fyddai'r Cyngor yn ymyrryd â rheolaeth weithredol y gwaith adeiladu, byddai gallu gweld cofnod o benderfyniadau'r prosiect yn rhoi lefel o dryloywder a hyder parhaus ynglŷn ag uniondeb y datblygiad.

PENDERFYNWYD

5. Nodi cynnydd Cam 1 prosiect yr Hen Goleg, yn cynnwys rheoli costau.
6. (Trwy BLEIDLAIS unfrydol) cymeradwyo'n ffurfiol dderbyn y Gronfa Ffyniant Bro fel y cafodd ei hamlinellu, er mwyn i Gam 2 prosiect yr Hen Goleg fynd yn ei flaen. Nodwyd bod dau Aelod a oedd wedi cyflwyno ymddiheuriadau ymlaen llaw am fethu â bod yn bresennol wedi cadarnhau eu cymeradwyaeth yn eu habsenoldeb. Fel y nodwyd yng nghofnodion y Pwyllgor A&Ph, byddai'n cael ei derbyn yn amodol ar y canlynol: cael sicrwydd cyson ynghylch: amodau'r Gronfa Ffyniant Bro a llofnodi cytundeb ffurfiol rhwng Ceredigion a PA ynglŷn ag unrhyw atebolrwydd ariannol os o gwbl yn y dyfodol; trylwyredd yr ymarferion caffael i bob elfen ychwanegol o Gam 2 y prosiect; rheolaeth ofalus barhaus ar y gwariant cyfalaf a chostau gan gadw cynnydd chwyddiant mewn cof. (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol).
7. Nodi y dylid rhoi ystyriaeth i lefel a natur y cyfathrebu, yn benodol â chorff y myfyrwyr, ynghylch datblygiad yr Hen Goleg. (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol).
8. Sicrhau y bydd penderfyniadau a wneir mewn ymateb i'r drefn peirianeg gwerth i Gam 1 prosiect yr Hen Goleg yn cael eu cofnodi'n briodol ac y dylid cynnwys cofnodydd penderfyniadau yn Amserlen Busnes y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a'i anfon ymlaen i'r Cyngor er gwybodaeth. (**GWEITHREDU:** Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol).

43. AROLWG GWELLA ANSAWDD - DADANSODDIAD HUNAN-WERTHUSO

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (COU2122-072)

NODWYD

1. Yn dilyn Cyfarfod Arbennig o'r Senedd ar 12 Ionawr 2022, a hysbysiad i'r Cyngor yn y diwrnod encil ym mis Medi 2021 a chyfarfodydd mis Tachwedd, ynghylch yr Arolwg Gwella Answadd; dywedwyd ymhellach wrth yr aelodau bod y ddogfen hunan-werthuso a'r dystiolaeth atodol wedi eu cyflwyno cyn ymweliad gan banel allanol ym mis Ebrill 2022. Byddai UMAber hefyd yn cyflwyno ei dogfen hunan-werthuso annibynnol eu hunain, ar wahân i'r un a ysgrifennwyd gan y Brifysgol. Ar ôl cyflwyno'r ddogfen hon

byddai paratoadau am yr ymweliad yn dechrau. Byddai'r tîm sicrhau ansawdd allanol yn cyfarfod cyn eu hymweliad i ofyn am dystiolaeth ychwanegol pe byddai angen, er bod 326 eitem o dystiolaeth wedi'u cyflwyno eisoes. Dywedwyd y byddai'r ymweliad yn digwydd dros 3 diwrnod o 25 Ebrill 2022 ymlaen, ac am ddau ddiwrnod a hanner o'r tridiau yn cynnwys archwilio tystiolaeth a chyfweliadau â chydweithwyr allweddol o bob rhan o'r Brifysgol. Disgwylir y canlyniad terfynol, ar ôl derbyn adroddiad drafft i sicrhau cywirdeb ffeithiau, 10 wythnos ar ôl yr ymweliad.

44. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (COU2122-073); a
2. Dogfennau wedi'u selio â'r Sêl Gyffredin (COU2122-074);

NODWYD

3. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

45. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad cyfansawdd yn cynnwys cofnodion y canlynol (COU2122-075):

1. Pwyllgor Llywodraethu a Chydymffurfio (12 Tachwedd 2021);
2. Y Senedd (12 Ionawr 2022); a
3. Y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad (28 Ionawr 2022).

NODWYD

4. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r is-bwyllgorau.

45. UNRHYW FATER ARALL, AROLWG O'R CYFARFOD, A BUSNES YN Y DYFODOL

1. Ffarwelio

Ar ran y Cyngor, diolchodd y Cadeirydd i Fiona Sharp am ei chyfraniad i'r corff llywodraethu yn ystod ei thymor, ac yn enwedig yn Gadeirydd y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad, a dymunodd yn dda iddi yn y dyfodol.